Cyflwyno'r DDEDDF TRWYDDEDU

Rhoi gwybodaeth i chi yn ystod y broses o weithredu Deddf Trwyddedu 2003.

MEDI 2004

DCMS yn cyhoeddi rheoliadau drafft

Cymerwyd cam pellach yn y broses o roi'r diwygiadau trwyddedu ar waith yn sgil cyhoeddi'r rheoliadau drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'r rheoliadau drafft yn bwysig gan eu bod yn darparu manylion ynghylch sut bydd y gyfundrefn drwyddedu newydd yn gweithio, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau ac atodlenni gweithredu. Hebddynt, ni fydd awdurdodau trwyddedu'n gallu dechrau prosesu ceisiadau ar 7 Hydref 2005. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys trwyddedau personol, gwrandawiadau, trwyddedau mangre, tystysgrifau mangre clwb, trefniadau trosiannol a chofrestri trwyddedu ac mae'n rhoi cyfle i gyflwyno sylwadau. Bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei ystyried pan fydd y rheoliadau ar eu ffurf derfynol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Disgwylir ymgynghoriad ar wahân ar ffioedd yn fuan.

Pwy ddylai ymateb? Gall unrhyw un wneud sylwadau ar y drafft. Bydd gweithredu'r rheoliadau'n effeithio ar bron bawb sy'n byw yn Lloegr a Chymru, felly mae'n bwysig ein bod yn derbyn barn pob parti â diddordeb er mwyn sicrhau bod y rheoliadau'n gadarn ac yn effeithiol. Rydym eisiau clywed yn arbennig gan awdurdodau trwyddedu, prif swyddogion yr heddlu, diwydiant, clybiau aelodau, grwpiau cymunedol a gwirfoddol, perfformwyr a'u cynrychiolwyr, cymdeithasau preswylwyr, defnyddwyr ac unigolion.

Sut? Mae copi llawn o'r ymgynghoriad a'r rheoliadau drafft, ynghyd â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gael ar wefan y DCMS ar: www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment. Gellir ebostio eich ymateb i regsconsultation@culture.gsi.gov.uk neu eu hanfon i:

The Alcohol and Entertainment Licensing Branch, Tourism Division, 3rd Floor, DCMS, 2-4 Cockspur Street, London SW1Y 5DH.

Mae'r ymgynghori'n dod i ben 10 Tachwedd.

Fforwm Cerddoriaeth Fyw

Cadeirydd y Fforwm yw'r cyn ganwr pop, Feargal Sharkey. Daw'r Fforwm â nifer o aelodau ynghyd o'r diwydiant cerddoriaeth, Cyngor Celfyddydau Lloegr, awdurdodau lleol, gweithredwyr mannau adloniant bach a'r Llywodraeth er mwyn edrych ar sefyllfa cerddoriaeth fyw yn y dyfodol yng nghyd-destun Deddf Trwyddedu 2003. Amcanion y Fforwm yw:

- Annog pobl i fanteisio ar y diwygiadau yn Neddf Trwyddedu 2003 sy'n ymwneud â pherfformio cerddoriaeth fyw.
- Hybu perfformiadau o gerddoriaeth fyw yn gyffredinol.
- Monitro a gwerthuso effaith Deddf Trwyddedu 2003 ar berfformio Cerddoriaeth Fyw

Cerddoriaeth fyw'n elwa yn sgil y Ddeddf newydd

Mae'r ffordd y trwyddedir cerddoriaeth fyw wedi newid yn sylweddol yn sgil Ddeddf 2003 gyda'r nod o annog mwy o fannau adloniant i gynnal perfformiadau byw. Pan ddaw y Ddeddf i rym, bydd y drwydded adloniant cyhoeddus ar wahân yn diflannu a dim ond un awdurdodiad fydd ei angen er mwyn cyflenwi alcohol a chynnal adloniant wedi ei reoleiddio. Bydd y ffi ar gyfer trwydded mangre'n cael ei bennu'n ganolog a bydd yr un fath, prun ai yw'r ymgeisydd yn gwneud cais i gyflenwi alcohol, darparu cerddoriaeth fyw, neu'r ddau.

Bydd y Ddeddf hefyd yn dod â'r rheol honno sydd wedi dyddio - 'dau mewn bar'- i ben. Ar hyn o bryd mae'r rheol hon o anfantais i fandiau, gan ei bod yn annog mangre i beidio â rhoi mwy na dau berfformiad i roi adloniant drwy'r nos.

Gall mangre sydd eisoes â thrwyddedau ar wahân ar gyfer alcohol ac adloniant wneud cais i'r rhain gael eu trawsnewid yn drwydded sengl o 7 Chwefror 2005. Yr un pryd bydd unrhyw fangre sydd ar hyn o bryd heb drwydded adloniant (gan gynnwys y rhai sy'n dibynnu ar y rheol 'dau mewn bar'), yn gallu gwneud cais am amrywiad i lwyfannu cerddoriaeth fyw ochr yn ochr â'u cais i drawsnewid eu trwydded alcohol.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr angen i sicrhau bod perfformwyr, eu rheolwyr a'u hasiantau, hyrwyddwyr a gweithredwyr mannau adloniant yn ymwybodol o'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y Ddeddf newydd, ac maent wedi sefydlu Fforwm Cerdd er mwyn sicrhau bod y system newydd yn rhoi manteision gwirioneddol i gerddorion ar lefel sylfaenol. Dywed Feargal Sharkey, Cadeirydd y Fforwm:

"Rwyf am weld mwy o gerddoriaeth fyw yn y wlad hon, a gyda'r newidiadau mawr mewn deddfau trwyddedau ar y gorwel, dyma'r cyfle gorau o fewn cenhedlaeth i wireddu hyn."

"Dywedodd traean o'r rhai sy'n dal trwyddedau y bydden nhw'n debygol o lwyfannu cerddoriaeth fyw yn y dyfodol er nad ydyn nhw'n gwneud hynny ar hyn o bryd. Rwyf am iddyn nhw, ac unrhyw un sydd â lle i gael band neu sioe fyw, feddwl yn ofalus a chofio'r manteision mewn elw, i gwsmeriaid ac i'r John Lennon nesaf sydd angen llwyfan i berfformio arni."

Arolwg MORI

Yn ddiweddar comisiynwyd yr arolwg cyntaf o sefyllfa cerddoriaeth fyw yn Lloegr a Chymru gan DCMS er mwyn helpu i gyfrannu at waith y Fforwm Cerddoriaeth Fyw. Bydd canlyniadau'r arolwg yn creu meincnod o weithgaredd fydd yn sail i fesur effaith Deddf Trwyddedu 2003. Holodd MORI bron i 1,600 o dafarndai, bwytai a chaffis, undebau myfyrwyr, clybiau bach, clybiau aelodau a neuaddau eglwys a chymuned. Roedd bron i hanner ohonynt wedi llwyfannu o leiaf un digwyddiad yn ymwneud â cherddoriaeth fyw yn y 12 mis diwethaf. Nodwyd bod galw gan gwsmeriaid a chynnydd mewn gwerthiant yn ffactorau pwysig wrth i ddeiliad trwydded benderfynu yngl?n â llwyfannu digwyddiadau.

Mae'r arolwg hefyd yn dangos bod nifer o fannau adloniant posibl nad ydynt wedi ystyried llwyfannu cerddoriaeth fyw. Bydd y Fforwm yn helpu i ddangos i fannau adloniant y bydd diwygiadau trwyddedu yn gwneud hyn yn haws, gan eu helpu i fanteisio ar y ddeddf newydd pan ddaw i rym.

I gael mwy o wybodaeth am ganlyniadau'r arolwg ewch i wefan y DCMS: www.culture.gov.uk

Mewn colofn reolaidd, bydd Richard Caborn, Gweinidog Trwyddedu, yn rhoi sylw i rai o'r prif faterion pryder sydd wedi'u codi ag ef ynglŷn â Deddf Trwyddedu 2003.

Un mater sy'n codi droeon yn y llythyrau ar fy nesg yn y misoedd diwethaf, yw'r ofn sydd gan olffwyr, a'u Haelodau Seneddol, am effaith bosibl y deddfau trwyddedu newydd ar glybiau golff. Eu pryder pennaf yw y bydd y deddfau newydd, pan ddônt i rym diwedd flwyddyn nesaf, yn atal chwaraewyr sy'n ymweld â'r clwb, ymwelwyr ar wyliau a golffwyr achlysurol rhag cael yfed ar ôl rownd os nad ydynt yn aelodau, neu yng nghwmni aelod o'r clwb.

Fel golffiwr brwd fy hun, rwyf yn hapus i allu'ch sicrhau nad oes unrhyw beth yn y deddfau trwyddedu newydd, sy'n debygol, yn ymarferol, o newid yn sylweddol y ffordd mae clybiau golff yn gweithredu yn y cyswllt hwn. Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn rhoi'r hyblygrwydd i glybiau wahodd ystod eang o bobl i far y tŷ clwb fel 'gwesteion'. Gall ymwelydd gael diod mewn bar tŷ clwb ar yr amod ei fod yn 'westai', fel a ddiffinnir yn rheolau'r clwb.

Y clwb fydd yn penderfynu a fydd ei reolau'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod lofnodi ar ran 'gwestai', neu a ddylid gosod amodau perthnasol eraill, fel talu ffi grîn. Yr unig gyfyngiad yw y dylai'r clwb gael ei redeg 'mewn dull gonest' fel clwb aelodau yng ngwir ystyr y gair (fel yn achos y ddeddf bresennol) ac ni ddylai ddatblygu, i bob pwrpas, i fod yn far sydd yn agored i'r cyhoedd. Mewn geiriau eraill, ni ddylai clybiau sydd eisoes, neu'n bwriadu i weithredu 'mewn dull gonest', gael unrhyw reswm i boeni am y dyfodol. Mae'r un peth yn wir am 'glybiau cymwys' eraill, gan gynnwys clybiau cymdeithasol, chwaraeon, gwleidyddol a chlybiau cyn-filwyr.

Pryder arall ynglŷn â'r deddfau newydd yw y bydd aelodau iau yn cael eu hatal o'r tŷ clwb, gan na chaniateir bellach i blant heb gwmni dan 16 oed fod yn bresennol mewn mangre a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf i gyflenwi alcohol. O fy mhrofiad i, defnyddir tai clwb at bob math o ddibenion, felly nid wyf yn rhagweld y bydd hyn yn broblem. Nid ydym ar unrhyw gyfrif am atal plant rhag bod yn rhan o glybiau golff, i ddysgu am y gêm a'i mwynhau hi mewn amgylchedd diogel, croesawgar.

I gael mwy o wybodaeth ynglŷn â sut bydd y Ddeddf yn effeithio ar aelodau clybiau cofrestredig , ewch i: www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/licensing_act_2003/qualifying_clubs

Bydd pob Cyflwyno'r Ddeddf Trwyddedu yn cynnwys 'Cwestiynau Cyffredin'. Yn y rhifyn hwn byddwn yn trafod datganiadau polisïau trwyddedu gan awdurdodau trwyddedu

C. Beth yw datganiadau polisïau trwyddedu?

A. Datganiadau o sut mae'r awdurdod trwyddedu'n bwriadu arfer ei swyddogaethau trwyddedu. Gall nodi dull gweithredu cyffredinol yr awdurdod o wneud penderfyniadau trwyddedu a darparu tryloywder i bawb sydd yn ymwneud â'r gyfundrefn drwyddedu, gan gynnwys partïon â diddordeb (fel trigolion) ac ymgeiswyr.

C. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng awdurdod trwyddedu ac awdurdod lleol?

A. Mae awdurdod trwyddedu'n ymgymryd â swyddogaethau trwyddedu dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Nid yw'n ymgymryd â swyddogaethau fel iechyd amgylcheddol neu gynllunio. Ymgymerir â'r swyddogaethau hynny gan wahanol awdurdod dan wahanol ddeddfwriaeth ac mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y ddau awdurdod a'u swyddogaethau, er efallai eu bod yr un bobl ynglŷn â hwy mewn cyngor lleol.

Er enghraifft, ni fyddai'n briodol i'r awdurdod trwyddedu hyrwyddo polisïau awdurdod lleol mewn perthynas ag iechyd amgylcheddol neu gynllunio, gan na fyddai hon yn swyddogaeth i'r awdurdod trwyddedu, a'r awdurdod trwyddedu yn hytrach na'r awdurdod lleol sy'n ffurfio ac yn cyhoeddi'r datganiadau polisïau trwyddedu.

C. Onid yw'r Arweiniad yn dweud y dylai datganiad polisïau nodi sut y bydd polisi trwyddedu'n cael ei integreiddio â pholisïau eraill fel cynllunio?

A. Ydi, argymhellir bod polisïau'n cael eu hintegreiddio'n briodol, ond dylid cymryd gofal a bod yn glir beth yw swyddogaethau'r gwahanol rolau ac na ddylid ystyried y bydd polisïau'r awdurdod lleol mewn meysydd eraill yn drech na gofynion Deddf 2003.

C. A all datganiad polisïau osod amodau cyffredinol – e.e. cyfyngiadau mewn ardaloedd preswyl?

A. **Ni ddylai** datganiadau polisïau trwyddedu danseilio hawl unrhyw unigolyn i wneud cais dan delerau Deddf 2003 am amrywiol hawliau ac i gais o'r fath gael ystyriaeth yn ôl ei rinweddau ei hun. Os na chyflwynir sylwadau perthnasol gan naill ai'r awdurdodau atebol (e.e. yr heddlu, yr awdurdod tân), neu bartïon â diddordeb) e.e. trigolion lleol) **rhaid** i'r awdurdod trwyddedu roi caniatâd i'r cais, gydag amodau sy'n gyson â'r atodlen weithredu neu atodlen weithredu'r clwb.

Dylai datganiadau polisïau wneud yn glir mai un o brif gysyniadau Deddf 2003 yw osgoi gorfodi amodau anghyfartal neu orfeichus pan nad oes galw am amodau o'r fath. Felly dylid osgoi amodau safonedig, ac yn wir, gall fod yn anghyfreithlon os na ellir profi bod eu hangen ar gyfer hybu'r amcanion trwyddedu mewn achos unigol. Er hynny, mae'n dderbyniol i awdurdodau trwyddedu dynnu sylw yn eu datganiad polisïau at amodau penodol lle **gellid** defnyddio amodau angenrheidiol a chymesur mewn amgylchiadau arbennig.

C. A allai datganiad polisi ddiystyru caniatáu mwy o drwyddedau mewn meysydd lle mae eisoes nifer o dafarndai a bariau?

A. Gall yr awdurdod trwyddedu fabwysiadu polisi arbennig ar gyfer ardal neilltuol, y dylai ei gynnwys yn ei ddatganiad, os yw'n fodlon, ar ôl dilyn y camau a nodir yn Neddf 2003, ac wedi ystyried yr Arweiniad i'r awdurdodau trwyddedu, ei bod yn briodol ac yn angenrheidiol gwneud hyn oherwydd byddai 'effaith gronnus' yn effeithio ar yr amcanion trwyddedu. Byddai hyn yn achosi tybiaeth amodol y byddai ceisiadau am drwyddedau mangre newydd neu amrywiadau perthnasol yn cael eu gwrthod gan amlaf, os derbynnid sylwadau perthnasol i'r perwyl hwnnw, oni bai y gellid dangos na fyddai'r modd y byddai'r mangre dan sylw'n gweithredu yn ychwanegu at yr effaith gronnus a brofir eisoes.

Rhaid ystyried ceisiadau o hyd yn ôl eu rhinweddau eu hunain, ond byddai angen i ymgeiswyr roi sylw i'r materion polisi arbennig yn eu hatodlen weithredu er mwyn dangos na fyddent yn ychwanegu at yr effaith gronnus a brofir eisoes. Ni all polisi arbennig sy'n ymwneud ag effaith gronnus gyfiawnhau, ac ni ddylai gynnwys darpariaeth ar gyfer oriau cau mewn ardal arbennig. Yr effaith fyddai gorfodi amser cau sefydlog yn debyg i'r hyn a geir dan Ddeddf Trwyddedu 1964, a ddiddymir gan Ddeddf 2003.

C. Sut dylai datganiadau ddelio â gofynion deddfwriaeth arall fel iechyd a diogelwch neu dân?

A. Dylai datganiadau polisïau trwyddedu gynnwys ymrwymiad cadarn er mwyn osgoi dyblygu cyfundrefnau rheoleiddiol eraill, cyn belled â phosibl. Er enghraifft, bydd iechyd a diogelwch yn y gwaith a rheoliadau tân eisoes yn gosod dyletswyddau cyffredinol ar gyflogwyr a gweithredwyr mannau adloniant. Dim ond amodau 'angenrheidiol' er mwyn hybu amcanion trwyddedu y dylid eu rhoi ynghlwm. Nid yw gofynion sydd eisoes wedi'u darparu mewn deddfwriaethau eraill yn angenrheidiol yng nghyd-destun cyfraith trwyddedu.

Mae awdurdodau trwyddedu ar hyn o bryd yn ymgynghori â grwpiau fel yr heddlu, busnesau lleol a thrigolion lleol, ar eu datganiadau trwyddedu drafft. Er mwyn gwybod sut i leisio'ch barn, ewch i wefan eich awdurdod lleol, neu cysylltwch â'u swyddog trwyddedu.

Mae mwy o wybodaeth am ddatganiad polisïau trwyddedu ar gael ym mhennod 3 yn yr Arweiniad, sydd ar gael ar wefan y DCMS.

Amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu

10 Gorffennaf 2003	7 Gorffennaf 2004	15 Medi 2004	Hydref 2004	10 Tachwedd 2004	7 Ionawr 2005	7 Chwefror 2005	Mawrth 2005	Tachwedd 2005
Cafwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Trwyddedu 2003.	DCMS yn cyhoeddi Arweiniad dan adran 182 o'r Ddeddf. Awdurdodau trwyddedu'n dechrau paratoi datganiadau polisïau ac ymgynghori arnynt.	DCMS yn cychwyn ymgynghori ar reoliadau drafft (ac eithrio ffioedd).	DCMS yn cychwyn ymgynghori ar reoliadau drafft ar gyfer ffioedd.	Ymgynghori ar reoliadau drafft (ac eithrio ffioedd) yn dod i ben.	Cychwyn 'cyfnod tair blynedd'. Rhaid i Awdurdodau Trwyddedu fod wedi cyhoeddi eu datganiad polisïau trwyddedu erbyn y dyddiad hwn.	Y Dydd a Enwyd – 1af. Awdurdodau trwyddedu'n dechrau prosesu ceisiadau.	Ymgynghori ar reoliadau drafft ynglŷn â gweithgareddau dros dro a ganiateir.	Y Dydd a Enwyd – 2il. Hen ddeddfau trwyddedu'n dod i ben. Trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb newydd yn dod i rym.

Syrcas a chelfyddydau stryd

Mae pedwar sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau y gall celfyddydau stryd a syrcasau elwa o'r gyfundrefn drwyddedu newydd.

Yn ddiweddar ysgrifennodd Syr Christopher Frayling (Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Lloegr), Ian McGarry (Ysgrifennydd Cyffredinol Ecwiti), Verena Cornwall (Cadeirydd Fforwm Celfyddydau Syrcas), a Bill Gee (cydlynydd Rhwydwaith Annibynnol Celfyddydau Stryd) at brif weithredwyr awdurdodau lleol a swyddogion celfyddydau awdurdodau lleol ynglŷn â phwysigrwydd y ffurfiau hyn o gelfyddyd. Roedd eu llythyr yn tanlinellu'r manteision o gyfeirio'n unionyrchol i syrcasau a chelfyddydau stryd, ynghyd â cherddoriaeth fyw, theatr a dawns mewn datganiadau polisïau trwyddedu:

'Rydym yn credu y bydd cynnwys cyfeiriad uniongyrchol yn eich polisi yn annog perfformwyr syrcas a chelfyddydau stryd i ymddangos yn eich cymuned, gan ddarparu cyfleoedd diwylliannol i lawer o bobl nad ydynt fel arall yn ymhél â chelfyddydau proffesiynol. Yn ôl Ystadegau Cenedlaethol, aeth 23% o'r boblogaeth i weld celfyddydau stryd, syrcasau a charnifalau yn 2001. Hefyd yn sgil y celfyddydau gwelwyd cynnydd yng ngwariant ardaloedd a hynny'n ei dro'n cael effaith ffafriol ar economïau lleol.'

Roeddent hefyd yn adleisio cais yr Ysgrifennydd Gwladol i brif weithredwyr awdurdodau lleol roi ystyriaeth ddifrifol i geisio trwyddedau mangre yn enw eu hawdurdod ar gyfer tir neu adeiladau mewn perchnogaeth gyhoeddus. Gallai hyn gynnwys meysydd pentrefi, sgwâr marchnad, rhodfeydd, neuaddau cymuned neu ganolfannau celfyddyd sy'n eiddo i'r awdurdod lleol. Yna ni fyddai perfformwyr angen awdurdodaeth er mwyn perfformio yn y mannau hyn, er y byddai dal yn ofynnol cael caniatâd gan yr awdurdod lleol.

Byddai'r dull hwn o weithredu o fantais i wyliau, syrcasau a pherfformiadau stryd nad ydynt sefydlog mewn un lleoliad. Yn ogystal â chael effaith economaidd a diwylliannol enfawr ar gymunedau, mae darpariaeth ddiwylliannol hefyd yn difyrru pobl ifanc ac yn eu cadw rhag ymwneud â gweithgareddau gwrthgymdeithasol, a datblygu economi hamdden nad yw'n gwbl seiliedig ar alcohol.

Bwriad y pedwar sefydliad yw cyhoeddi cyngor i hyrwyddwyr celfyddydau stryd, ymarferwyr a pherchnogion/artistiaid syrcas ynglŷn â sut i weithio o fewn y gyfundrefn newydd ac rydym yn gweithio â Chydlynwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol (LACORS) i roi cyngor i awdurdodau lleol ar weithio gydag ymgeiswyr o'r sectorau hyn.

I gael mwy o wybodaeth anfonwch ebost: David.Micklem@artscouncil.org.uk

Ymrwymiad Caint i'r celfyddydau

Mae awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn paratoi eu datganiadau polisïau trwyddedu ac yn ymgynghori arnynt, mewn pryd er mwyn eu cyhoeddi erbyn 7 Ionawr 2005. Mae'r Canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn pwysleisio y dylai datganiadau polisïau trwyddedu ddweud sut y bydd polisi trwyddedu awdurdod wedi'i integreiddio â pholisïau mewn meysydd eraill, fel atal troseddu, amgylchedd, safonau masnach, diwylliant a'r celfyddydau, adfywio economaidd a thwristiaeth.

Enghraifft o'r hyn y gallai hyn ei olygu mewn gwirionedd yw'r hyn a gymerwyd gan awdurdodau trwyddedu Caint wrth ddatblygu eu datganiadau polisïau trwyddedu. Maent wedi cynnwys strategaethau diwylliannol yn eu polisïau, gan roi sylw neilltuol i hyrwyddo cerddoriaeth fyw, celfyddyd ac adloniant stryd. Mae Roger Vick yn Bennaeth Trwyddedu yng Nghyngor Dinas Caergaint, dinas lle mae'r boblogaeth yn cynnwys fawr o fyfyrwyr, yn ogystal â bod yn gynghorydd i'r LGA a LACORS. Meddai:

"Mae Caint wedi ymateb yn rhagweithiol er mwyn sicrhau bod digwyddiadau byw yn cael eu hyrwyddo a'u bod yn gynaliadwy. Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau fannau adloniant cyfyngedig eu hunain er mwyn hyrwyddo gweithgareddau o'r fath, ac felly rydym wedi canolbwyntio ar annog mannau adloniant preifat i hyrwyddo cerddoriaeth fyw, a gweithgareddau diwylliannol tebyg. Mae polisi drafft Caergaint yn nodi y bydd y Cyngor yn sicrhau bod cerddoriaeth fyw, dawns a mathau eraill o gelfyddyd yn cael eu hyrwyddo'n weithgar drwy ddeddfau trwyddedu newydd drwy'r ardal, mewn lleoliadau cyhoeddus a mangre preifat.'

Mae Roger yn credu bod y polisi drafft, sydd wedi'i gefnogi'n llawn gan aelodau'r cyngor, yn dangos ymrwymiad Caergaint i amcanion trwyddedu a'r celfyddydau:

"O fewn y polisi trwyddedu drafft mae ymrwymiad hefyd i drwyddedu mannau cyhoeddus agored er mwyn sicrhau na fydd gweithgareddau diwylliannol symudol a rhai achlysurol yn yr awyr agored yn cael eu rhwystro. Mae hyn yr un mor berthnasol i ganol dinas Caergaint lle bydd bysgio a chelfyddydau stryd eraill yn cael eu hannog, hyrwyddo a'u rheoli gan y broses drwyddedu."

Mae Roger yn cydnabod ei bod yn bwysig ystyried anghenion trigolion a'r gymuned leol:

"Er hynny, mae'n rhaid i Gynghorau gydbwyso eu gweithgareddau er mwyn sicrhau nad yw digwyddiadau'n achosi niwsans i gymdogion lleol, a gellir sicrhau hyn gan amlaf drwy drefn resymol mewn mangre. Mae'n bosibl ar y cyfan gorfodi adeiladau i "ddod â gweithgareddau i ben", ac fel arfer problemau ynghylch pobl sy'n gwasgaru sy'n achosi niwsans lleol."

Mae Caint hefyd wedi cydnabod ei bod yn bwysig cynnal cyfleusterau cymunedol mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn hefyd wedi'i gydnabod ym mholisi drafft Caergaint, sy'n nodi bod y Cyngor yn awyddus i gynnal y ddarpariaeth mewn neuaddau pentref, neuaddau eglwys, canolfannau cymunedol a siopau pentref ac annog darparu cyfleusterau tebyg ychwanegol.

Byddai gennym ddiddordeb mewn clywed gan awdurdodau trwyddedu eraill ynghylch sut maent yn integreiddio trwyddedu a pholisïau eraill. I gael mwy o wybodaeth am ddull gweithredu Caint a Caergaint, cysylltwch â Roger Vick [Roger.Vick@Caergaint.gov.uk]

Ymwneud â diwygiadau trwyddedu

Am y tro cyntaf, mae'r gyfundrefn drwyddedu alcohol ac adloniant yn cael ei hehangu i gynnwys cychod a llongau sy'n teithio ar ddyfroedd mewndirol ac arfordirol. Ar hyn o bryd dim ond cychod a llongau sydd wedi'u hangori'n barhaol sy'n gorfod cael trwydded.

Gan and yw nifer o gychod a llongau wedi bod dan reolaeth deddfau o'r fath yn flaenorol, mae gweithredwyr yn awyddus i gael gwybod sut bydd y gyfundrefn newydd yn gweithio'n ymarferol. Hefyd bydd yn rhaid i awdurdodau trwyddedu fod yn ymwybodol o ofynion arbennig sy'n unigryw i'r sector cychod. Er enghraifft, mae awdurdodau ychwanegol yn gyfrifol am gychod a llongau, a bydd yn rhaid eu hysbysu ynghylch ceisiadau ar gyfer awdurdodiadau dan y Ddeddf Trwyddedu. Mae'r rhain yn cynnwys yr awdurdodau mordwyo perthnasol, Asiantaeth yr Amgylchedd, Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain ac Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau (MCA). Mae'r MCA hefyd wedi'i awdurdodi i gynnal archwiliadau ac ymwneud â gorfodaeth mewn perthynas â diogelwch y cyhoedd ar gychod a llongau.

Yn ddiweddar cyfarfu Ffederasiwn Morol Prydain, Cymdeithas Cychod i Deithwyr a'r MCA â swyddogion DCMS i drafod sut fyddai'r ffordd orau i hysbysu'r diwydiant ac awdurdodau trwyddedu am y goblygiadau hyn. Maent yn gweithio gyda Chydlynwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol i roi gwybodaeth i swyddogion trwyddedu a chynllunio, drwy'r Grŵp Llywio Llongau Domestig i Deithwyr, i gyhoeddi arweiniad i weithredwyr ynglŷn â sut i weithio o fewn y gyfraith newydd.

Mae'r prif sefydliadau'n cynnwys:

Cymdeithas Awdurdodau Mordwyo Mewndirol [www.aina.org.uk]
– a sefydlwyd yn 1996 i roi llais unigol ar faterion yn ymwneud â rheoli dyfrffyrdd. Mae AINA yn ffynhonnell dda o wybodaeth am y gwahanol awdurdodau mordwyo.

Asiantaeth yr Amgylchedd [www.environment-agency.gov.uk]
– corff cyhoeddus sy'n gyfrifol am ddiogelu a gwella'r amgylchedd yn Lloegr a Chymru; yn gyfrifol am hybu mordwyo, pysgota a gweithgareddau hamdden eraill ar ein hafonydd.

Dyfrffyrdd Prydain [www.britishwaterways.co.uk]
– Corfforaeth gyhoeddus sy'n rheoli ac yn gofalu am oddeutu hanner cant y cant o holl fordwyo mewndirol Prydain.

Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau [www.mcga.gov.uk]
– cynnal rhai o'i swyddogaethau ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol ac arolygwyr neu syrfewyr llongau a apwyntiwyd dan adran 256 o Ddeddf Llongau Masnach 1995. Mae'n gyfrifol am weithredu polisi diogelwch arforol y Llywodraeth drwy'r DU. Mae wedi'i awdurdodi i gynnal archwiliadau ac ymwneud â gorfodaeth mewn perthynas â diogelwch cyhoeddus ar gychod a llongau.

Ffederasiwn Morol Prydain [www.britishmarine.co.uk]
– y gymdeithas fasnach i'r diwydiant cychod.

Cymdeithas Cychod i Deithwyr [www.passengerboats.co.uk]
– sefydliad masnach sy'n cynrychioli cwmnïau cychod i deithwyr o bob cwr o'r DU.

Siopau hwylus yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad

Mynychodd Tîm Trwyddedu y DCMS Fforwm Siopau Trwyddedig Cymdeithas Siopau Hwylus (ACS) ar y diwrnod ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi'r Arweiniad i awdurdodau cynllunio. Ar hyn o bryd mae oddeutu 45,000 o siopau trwyddedig yn Lloegr a Chymru, ac mae 36,000 ohonynt gan siopau bach. Roedd y fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o siopau hwylus mawr, gan gynnwys SPAR, Booker, Q8, y Co-op a'r Scottish Courage, gan ddangos bod aelodau ACS yn benderfynol o fod yn gyfarwydd â'r datblygiadau diweddaraf yng nghyfraith siopau trwyddedig.

Eglurwyd y darpariaethau perthnasol yn Neddf Trwyddedu 2003 gan y DCMS, gan bwysleisio bod y Llywodraeth yn dibynnu ar weithio gyda grwpiau diwydiant fel ACS i helpu i roi gwybod am y deddfau newydd i'r 180,000 sy'n dal trwyddedau yn Lloegr a Chymru.

Mewn ymateb i bryderon am ddehongli'r Ddeddf newydd yn lleol, nododd y DCMS y dylai'r Arweiniad a gyhoeddwyd i awdurdodau trwyddedu helpu i sicrhau dull trwyddedu cyson a chymesur. Lle bo angen mae hefyd yn rhoi hyblygrwydd priodol er mwyn adlewyrchu amgylchiadau lleol. Elfen allweddol o'r hyblygrwydd lleol yw'r angen i awdurdodau lleol gyhoeddi datganiadau polisïau sy'n amlinellu sut maent yn bwriadu arfer eu swyddogaethau. Cyn penderfynu ar eu polisïau, rhaid i'r awdurdod trwyddedu ymgynghori â chynrychiolwyr busnesau lleol. Anogodd y DCMS grwpiau siopau hwylus i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwnnw.

Dywedodd David Rae, Prif Weithredwr ACS: "Mae ACS yn ystyried hwn yn un o'n prif flaenoriaethau. Bydd sicrhau bod gennym gyfundrefn drwyddedu fodern, hyblyg ac ymarferol o fantais i'n holl aelodau. Mae Awdurdodau Lleol yn llunio'r polisïau sy'n effeithio ar siopau lleol ar hyn o bryd, ac rydym yn annog ein haelodau i gymryd rhan yn yr ymgynghoriadau polisi hynny."

I gael mwy o wybodaeth am waith yr ACS yn eich ardal cysylltwch â: shane.brennan@acs.org.uk.

Dyddiadur digwyddiadau

2/3 Tachwedd
Digwyddiad Rheolwyr Unedau Myfyrwyr yn yr Holiday Inn, Birmingham [www.nusonline.co.uk]

4 Tachwedd
Richard Caborn yn annerch Cynhadledd y Tafarnwyr yng Nghanolfan Gynhadledd y Frenhines Elizabeth [www.thepublican.com]

16/17 Tachwedd
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Ffederasiwn Cymdeithas y Tafarnwyr yng Ngwesty St Nicholas, Scarborough [www.flva.co.uk]

17 Tachwedd
Richard Caborn yn annerch Cinio Gwobrau Adwerthu Diodydd Cyfrifol yng Ngwesty Carlton Towers. [www.responsibledrinksretailing.co.uk]

23 Tachwedd
Andrew McIntosh yn annerch yng Nghynhadledd Flynyddol Busnes mewn Chwaraeon a Hamdden yng Ngwesty'r Royal Lancaster, Hyde park [www.bisl.org]

23 Tachwedd
Cynhadledd Ymddiriedolaeth Ddinesig: Ar hyd y Nos – beth yw dyfodol Economi'r Nos yn Lloegr, yng Ngholeg Regent [www.civictrust.org.uk]

Ymgyrch Gorfodaeth yr haf – y wybodaeth ddiweddaraf

Daeth ymgyrch gorfodaeth yr haf oedd yn mynd i'r afael â throseddau'n ymwneud ag alcohol ac anhrefn i ben ar ŵyl y banc Awst. Yn ystod yr haf, bu'r heddlu a swyddogion masnach yn ymweld â mwy na 30,500 mangre trwyddedig. Targedwyd dros 1,800 mangre fel rhan o ymweliadau a wnaed yn ddirybudd. Rhoddwyd hysbysiadau cosb benodol i dros 5,000 o rai oedd yn codi twrw a chymerwyd alcohol oddi wrth fwy na 9,500 o oedolion a phobl ifanc.

Dangosodd yr ymgyrch na chyflawnid troseddau gan 96% o'r mangre yr ymwelwyd â hwy, ond roedd hanner y rhai a dargedwyd yn ddirybudd yn gwerthu i rai dan 18 oed. Un o brif egwyddorion y diwygiadau trwyddedu yw cyflwyno pwerau cryf i ddelio â'r lleiafrif sy'n ymddwyn yn anghyfrifol neu'n anghyfreithlon, a sicrhau mwy o ryddid i'r mwyafrif cyfrifol.

Mae'r diwygiadau newydd yn cynnwys:

- y pŵer i gau'n syth fangre gyda thrwydded mangre neu hysbysiad digwyddiad dros dro lle mae anhrefn, neu lle sy'n debygol o fod ag anhrefn neu niwsans cyhoeddus am hyd at 24 awr.
- Cynnydd yn y gosb am werthu alcohol i blant a'i gwneud yn bosibl i atal neu fforffedu trwyddedau personol yn sgil trosedd gyntaf ac nid, fel gyda thrwyddedau ynadon yn unig ar ail gyhuddiad.
- Y pŵer i adolygu trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb yn syth pan fo problemau'n codi, yn hytrach nac aros iddynt gael eu hadnewyddu.
- Y pŵer, wrth adolygu, i addasu amodau'r drwydded (h.y. newid oriau masnachu), eithrio rhai gweithgareddau trwyddedadwy, cael gwared ar oruchwyliwr mangre dynodedig, atal y drwydded am hyd ar dri mis, neu ei diddymu.

I gael mwy o wybodaeth am ymgyrch yr haf, ewch i wefan y Swyddfa Gartref: www.homeoffice.gov.uk. Ar gyfer Canllawiau 'Troseddau Treisgar – Mynd i'r Afael â Throseddau Treisgar yn Economi'r Nos' , ewch i: www.policereform.gov.uk/psu

Twristiaeth Yfory Heddiw

Ar 19 Gorffennaf, eglurodd Tessa Jowell yr Ysgrifennydd Diwylliant sut bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i hybu'r diwydiant twristiaeth, wrth iddi lansio **Twristiaeth Yfory Heddiw**, prosbectws twristiaeth ar y cyd y DCMS, y diwydiant, y rhanbarthau a llywodraeth leol.

Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn rhan o raglen ddiwygio ehangach ar gyfer twristiaeth ac mae'n cwrdd â'i strategaeth mewn sawl ffordd:

- Mae'n cael gwared ar rwystrau sy'n atal twristiaeth, adwerthu, lletygarwch a diwydiannau hamdden rhag datblygu ymhellach.
- Mae'r system symlach newydd yn cyflwyno mesurau rheoleiddiol mwy cymesur ar gyfer busnesau trwy gael gwared ar fiwrocratiaeth, gan arbed amcangyfrif o £2 biliwn i ddiwydiant dros gyfnod o 10 mlynedd.
- Bydd oriau masnachu mwy hyblyg yn rhoi mwy o ddewis i gwsmeriaid, gan gynnwys twristiaid, ynglŷn â ble, pryd a sut maent yn treulio'u hamser hamdden, fydd yn ei dro'n caniatáu i economïau'r nos yn Lloegr a Chymru gystadlu yn erbyn gwledydd Ewrop.
- Gweithredu fel mecanwaith hanfodol ar gyfer adfywio ardaloedd sydd angen mwy o fuddsoddiad a chyfleoedd cyflogaeth a ddaw yn sgil economi nos ffyniannus.
- Cynnig datblygiadau pellach o fewn cymunedau mewn ardaloedd gwledig a threfol, mewn perthynas â'n diwylliant cyfoethog o gerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr.

Gellir llwytho i lawr Twristiaeth Yfory Heddiw o wefan y DCMS: www.culture.gov.uk/tourism

Rhifyn nesaf – Hydref 2004. I gael mwy o wybodaeth am Ddeddf Trwyddedu 2003 a sut y bydd yn effeithio arnoch, ewch i'n gwefan - www.culture.gov.uk. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer erthyglau anfonwch ebost: licensing.newsletter@culture.gsi.gov.uk. I danysgrifio er mwyn derbyn rhifynnau pellach o Cyflwyno'r Ddeddf Trwyddedu drwy ebost, ewch i www.culutre.gov.uk/alcohol_and_entertainment/licensing_newsletter

Cynigir cynnwys y tudalennau hyn fel canllaw gwybodaeth yn unig. Nid ydynt yn ddatganiad llawn ac awdurdodol o'r gyfraith ac nid ydynt yn cynnwys cyngor proffesiynol neu gyfreithiol. Nid yw unrhyw ddatganiad ar y tudalennau hyn yn disodli, ehangu, diwygio neu newid mewn unrhyw ffordd ddarpariaethau statudol Deddf Trwyddedu 2003 nac unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol.
Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon na'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon am unrhyw gamsyniad, esgeulustra neu ddatganiadau camarweiniol ar y tudalennau hyn, nac unrhyw safle y cyfeirir ato ar y tudalennau hyn. Dylid nodyn arbennig, er bod yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth ar y tudalennau hyn yn gywir, mae newidiadau yn y gyfraith a'r ffyrdd gweithredu yn golygu na ellir gwarantu bod y wybodaeth ar y tudalennau hyn yn gywir.